# Bywyd ar ôl rhyfel

Os bu achos dathlu erioed, yna Mai'r 8fed, 1945 – diwrnod Victory in Europe – oedd y diwrnod hwnnw.

Ond doedd dim modd osgoi effeithiau'r rhyfel. Bu farw cannoedd o filoedd o bobl ac roedd Prydain mewn dyled anferthol.

Yn gyntaf, roedd angen dadfyddino, ail gyflwyno milwyr i'r gymdeithas a rhoi Prydain ar waith.

Yn y 18 mis wedi'r rhyfel, dychwelodd 4.3 miliwn o bobl i'w hen fywydau ar 'civvy street'.

Ond roedd llawer wedi newid mewn chwe blynedd. Y milwyr eu hunain, eu cynefin, ac i rai, eu teimladau tuag at eu partneriaid.

Roedd ailaddasu'n gallu bod yn anodd.

Roedd newid ar droed yn y byd gwleidyddol hefyd.

Yn ystod y rhyfel, addawodd Llafur, petai nhw'n ennill yr etholiad nesa' y bydden nhw'n cyflwyno cynllun sylweddol o welliannau wedi eu seilio ar awgrymiadau'r economegydd William Beveridge. A'r nôd oedd helpu gweithwyr.

Datgelodd adroddiad Beveridge y pum 'Cawr Drwg': angen, afiechyd, anwybodaeth, aflendid a segurdod, gan awgrymu y dylai'r Llywodraeth ofalu am ei dinasyddion "o'r crud i'r bedd".

Roedd y polisïau yma'n boblogaidd, ac er y bu Churchill – arweinydd y Ceidwadwyr – yn arweinydd rhyfel gwych, enillodd Llafur fuddugoliaeth ysgubol yn etholiad cyffredinol 1945.

Dyma ddechrau y Wladwriaeth Les.

Un o flaenoriaethau Llafur oedd gwella addysg, felly yn 1947, cododd oedran gadael yr ysgol i 15.

Roedden nhw hefyd eisiau 'Cartrefi i Bawb', ac adeiladwyd miliwn o dai rhwng 1945 ac 1951.

Gwladoli oedd un o bolisïau mawr arall y blaid, a oedd yn golygu trosglwyddo perchnogaeth cwmnïau mawr i ddwylo'r Llywodraeth gan sicrhau bod elw'r cwmnïau preifat hynny'n cyrraedd y pwrs cyhoeddus.


© Hawlfraint BBC

Y newid mwya' ym Mhrydain wedi'r rhyfel oedd cyflwyno'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Cyn y rhyfel, roedd yn rhaid i ddynion diwaith, a'r rhan fwya' o fenywod a phlant, dalu i weld y meddyg, ond roedd y gwleidydd Llafur, Aneurin Bevan, eisiau newid hynny.

Yn 1946, llwyddodd y Cymro i gyflwyno deddf oedd yn sicrhau gofal iechyd cynhwysfawr, yn rhad ac am ddim i bawb.

Roedd y rhan fwya' o bobl wrth eu bodd.

Ond doedd pawb ddim yn bles gyda diwygiadau Llafur.

Roedd rhai'n credu bod y Wladwriaeth Les yn ddrud, yn annog diogi ac yn ymyrryd ym mywydau pobl.

Felly, er creulondeb a chaledi'r rhyfel, ysbrydolodd syniad arloesol y Wladwriaeth Les cyfnod o dwf ym Mhrydain.


© Hawlfraint BBC